

Tŷ'r Cyffredin
LLUNDAIN
SW1A 0AA

30 Mehefin 2016

At holl Aelodau Seneddol Cymru

Annwyl Gyfaill

Bil Cymru – gwelliannau arfaethedig ar gyfer 5 Gorffennaf

Yn dilyn cyflwyno Bil Cymru yn gynharach y mis hwn, hoffwn dynnu eich sylw at y gwelliannau drafft a gyhoeddwyd gennyf heddiw sy'n ymwneud â'r cymalau a gaiff eu trafod ddydd Mawrth 5 Gorffennaf. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a holl Aelodau Seneddol Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu trafod fel y gallwn gydweithio i sicrhau setliad cyfansoddiadol sy'n ymarferol, yn glir ac yn darparu sail gadarn ar gyfer dyfodol y Cynulliad.

Yn dilyn y bleidlais i Adael yn Refferendwm yr UE yr wythnos diwethaf, mae'n hanfodol sicrhau bod gan Gymru fframwaith cyfansoddiadol cryf a bod hynt y Bil drwy'r Senedd yn parhau. Fy rôl i fel Llywydd yw cynrychioli buddiannau'r Cynulliad a sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithio i bobl Cymru. Mae'n gam arloesol i'r Llywydd gyhoeddi gwelliannau. Rwy'n cymryd y cam hwnnw am fy mod eisiau bod yn agored ynghylch y gwelliannau i'r Bil sy'n bwysig i'r sefydliad. Mae'r gwelliannau wedi'u paratoi ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd wrth graffu ar y Bil drafft cyn y broses deddfu a chasgliadau Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol blaenorol y Cynulliad, ac ar brofiad y sefydliad o weithio'n unol â'r setliad presennol. Rwy'n parhau i drafod y rhain ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Bwriedir i'r gwelliannau hyn adlewyrchu dwy egwyddor allweddol.

Mae'r cyntaf yn egwyddor gyfansoddiadol bwysig: dylai'r Cynulliad gydsynio i unrhyw newid a wneir i'w bwerau. Felly, ni ddylai'r trefniadau cydsyniad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



deddfwriaethol statudol rhwng y Cynulliad a'r Senedd fod yn gulach na chwmpas y confensiwn rhynglywodraethol sydd ar waith ar hyn o bryd. Yn yr un modd, dylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad cyn datganoli'r pŵer i amrywio cyfradd y dreth incwm.

Yr ail egwyddor y mae'r gwelliannau'n rhoi sylw iddi yw y dylai'r Cynulliad, ar ôl 16 mlynedd o ddatganoli, gael y pŵer a'r hyblygrwydd i benderfynu ynghylch ei faterion mewnol ei hun. Ymdrinnir â'r egwyddor hon drwy welliannau i'r meysydd a ganlyn:

- Mae'r Bil yn datganoli pŵer i'r Cynulliad mewn perthynas â'i drefniadu etholiadol, ac mae hynny i'w groesawu, ond mae problemau i'w datrys o hyd. Mae'r gofyniad i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf ac ethol Llywydd o fewn saith diwrnod yn arwain at drafferthion ymarferol ac nid yw'n rhoi'r un hyblygrwydd i'r Cynulliad â'r Alban, lle y ceir gofyniad i ethol Llywydd o fewn 14 diwrnod. Yn yr un modd, rwyf am i'r pwerau i amrywio dyddiadau etholiadau cyffredinol y Cynulliad, ac i bennu dyddiadau etholiadau eithriadol y Cynulliad, gael eu trosglwyddo i'r Llywydd, yn unol â'r drefn yn yr Alban. Ar hyn o bryd, byddai'r Bil yn trosglwyddo'r cyntaf o'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru, ac yn gadael yr ail yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol.
- Credaf, felly, y dylid diwygio'r Bil hefyd i gael gwared ar ragnodion newydd a diangen ynghylch y trefniadau gweithredu, a geir yn y darpariaethau sy'n gofyn am uwch-fwyafrif ac asesiadau o'r effaith ar gyfiawnder.
- Rwy'n falch o weld bod y Bil yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad reoli materion ariannol, materion atebolrwydd a materion archwilio ar gyfer cyrff yng Nghymru. Hoffwn i'r Bil gynnwys nifer fach o ddarpariaethau ychwanegol pwysig yn hyn o beth.

Mae'r dogfennau sydd wedi'u hatodi yn cynnwys disgrifiad manwl o'r newidiadau rwy'n eu hawgrymu, yn ogystal â'r gwelliannau drafft eu hunain.

Mae'r gwelliannau a gynigwyd gennyf yn mynd i'r afael â materion a gaiff eu trafod ar ddiwrnod cyntaf y broses graffu a gynhelir gan bwyllgor Tŷ'r Cyffredin (Rhan 1 o Fil Cymru, ac eithrio cymal 3 a'r atodlenni cysylltiedig) ar 5 Gorffennaf. Rwy'n gobeithio gwneud awgrymiadau pellach ynglŷn â'r materion sydd i'w trafod ar ail ddiwrnod cyfnod pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd er mwyn nodi fy safbwyntiau cychwynnol ar Fil Cymru yn fwy cyffredinol gan gynnwys y model cadw pwerau.

[\[Llythyr 21 Mehefin\]](#)



Rwy'n gobeithio, felly, y bydd y gwelliannau hyn yn helpu i lywio ac i gefnogi gwaith craffu cynnar a chadarn ar y Bil yn Senedd y DU ac yma yn y Cynuliad, a hynny o dan arweiniad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol newydd. Rwy'n edrych ymlaen at ddilyn y drafodaeth yr wythnos nesaf.

Byddwn yn fwy na pharod i drafod unrhyw agwedd gyda chi ac mae croeso i chi gysylltu â'm swyddfa.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd

Amg

